GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Tîm Diogelu Iechyd
## Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cyfnod Eithrio ar gyfer Heintiau Cyffredin (Ionawr 2022)

Yn y tabl isod ceir canllaw ynghylch a ddylai unigolyn â haint fynychu lleoliad, e.e. ysgol neu weithle. Mae hyn yn seiliedig ar lefel/cyfnod yr heintusrwydd ac nid ar b'un a yw'r unigolyn yn ddigon iach i fynychu. Os ydynt yn ansicr, dylai unigolion aros gartref a cheisio cyngor gan Galw Iechyd Cymru drwy ffonio 0845 46 47 (GIG 111 lle y bo ar gael), neu gan eu Fferyllfa neu Feddyg Teulu. Os bydd angen cyngor ar leoliad ynghylch heintiau a'r cyfnod y dylid cadw unigolyn draw o'r lleoliad (cyfnod eithrio), gofynnir iddo wneud y canlynol:

1. Cyfeirio at y wybodaeth yn y tabl isod
2. Ceisio cyngor, os bydd angen, gan weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol, fel Meddyg Teulu, Fferyllfa, Ymwelydd Iechyd, Nyrs Ysgol ac ati
3. Os bydd staff yn sâl/yn dod i gysylltiad â haint, cysylltu â'i Dîm Iechyd Galwedigaethol ei hun
4. Cysylltu â **Thîm Diogelu Iechyd Gwasanaeth Ymateb Acíwt Cymru Gyfan ar 0300 003 0032**

Pan fydd brigiadau lleol/cenedlaethol o salwch, fel arfer bydd Tîm Diogelu Iechyd/Ymateb Acíwt Cymru Gyfan yn cysylltu â lleoliadau i'w hysbysu a'u cynghori ynghylch unrhyw gamau y mae angen iddynt eu cymryd. Gofynnir i leoliadau gadw cofrestr o unigolion sy'n sâl a chadw cofrestr o unigolion y gellir ystyried eu bod yn agored i heintiau. Os bydd dau achos neu fwy o haint, neu fwy na'r nifer arferol o achosion o haint cyffredin, dylai'r lleoliad geisio cyngor gan y Tîm Diogelu Iechyd.

| Brechau a heintiau'r croen | Y cyfnod y dylid cadw unigolyn draw o'r lleoliad (Cyfnod Eithrio) | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Dylid ystyried bod brechau diesboniad yn heintus nes y ceir cyngor iechyd.** | | |
| Tarwden y traed | Dim | Nid yw tarwden y traed yn gyflwr difrifol. Argymhellir triniaeth |
| Brech yr ieir | 5 diwrnod ar ôl i'r frech ymddangos A nes bod pob fesicl (pothell) wedi ffurfio crachen | Yn heintus am 2 ddiwrnod cyn i'r frech ymddangos *GWELER: Unigolion Agored i Niwed a Beichiogrwydd (isod)* |
| Doluriau annwyd (Herpes simplex) | Dim | Dylid osgoi cusanu a chysylltiad â'r doluriau. Fel arfer mae doluriau annwyd yn ddiniwed ac yn hunangyfyngol |
| Brech goch yr Almaen (rwbela)* | 4 diwrnod ar ôl i'r frech ymddangos | Gellir ei hosgoi drwy gael brechiad sy'n rhan o'r amserlen imiwneiddio reolaidd (MMR x 2 ddos). *GWELER: Beichiogrwydd (isod)* |
| Clefyd y dwylo, y traed a'r genau | Dim | Ni ddylid drysu rhwng y clefyd hwn a Chlwy'r traed a'r genau mewn anifeiliaid |
| Impetigo | Nes y bydd y mannau yr effeithir arnynt wedi ffurfio crachen a gwella, neu 48 awr ar ôl dechrau triniaeth â gwrthfiotigau | Mae triniaeth â gwrthfiotigau yn cyflymu'r broses wella ac yn cwtogi'r cyfnod heintus |
| Y frech goch* | 4 diwrnod ar ôl i'r frech ymddangos | Gellir ei hosgoi drwy gael brechiad sy'n rhan o'r amserlen imiwneiddio reolaidd (MMR x 2 ddos). *GWELER: Unigolion Agored i Niwed a Beichiogrwydd (isod)* |
| Molluscum contagiosum | Dim | Cyflwr hunangyfyngol |
| Y darwden | Dim | Sicrhau ei bod wedi'i gorchuddio. Argymhellir triniaeth |
| Y crafu | Gall yr unigolyn yr effeithir arno ddychwelyd ar ôl y driniaeth gyntaf | Bydd angen i aelodau o'r aelwyd a chysylltiadau agos gael triniaeth ar yr un pryd |
| Y dwymyn goch* | Gall yr unigolyn ddychwelyd 24 awr ar ôl dechrau triniaeth briodol â gwrthfiotigau | Argymhellir triniaeth â gwrthfiotigau i'r unigolyn yr effeithir arno. Ymgynghorwch â'r Tîm Diogelu Iechyd os bydd y Ffliw a/neu Frech yr Ieir yn mynd o gwmpas y lleoliad ar yr un pryd â'r Dwymyn goch. |
| Clefyd y foch goch/Parfofeirws B19 | Dim | *GWELER: Unigolion Agored i Niwed a Beichiogrwydd (isod)* |
| Yr eryr | Dim ond os yw'r frech yn diferu ac nad oes modd ei gorchuddio y dylid cadw'r unigolyn draw o'r lleoliad | Gall achosi brech yr ieir yn y bobl hynny nad oes ganddynt imiwnedd iddi, h.y. nad ydynt wedi cael brech yr ieir o'r blaen. Caiff ei ledaenu drwy gysylltiad agos iawn a chyffyrddiad. Os bydd angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Diogelu Iechyd. *GWELER: Unigolion Agored i Niwed a Beichiogrwydd (isod)* |
| Dafadennau a Ferwcau | Dim | Dylid gorchuddio ferwcau mewn pyllau nofio, campfeydd ac ystafelloedd newid |
| **Salwch â dolur rhydd a chwydu** | | |
| Clostridioides difficile (a alwyd yn Clostridium difficile/C.diff yn flaenorol) | 48 awr ar ôl y tro diwethaf i'r unigolyn gael dolur rhydd | Os bydd dau achos neu fwy mewn lleoliad, ceisiwch gyngor gan y Tîm Diogelu Iechyd |
| Cryptosporidiosis | Dylai'r unigolyn gadw draw o'r lleoliad am 48 awr ar ôl y tro diwethaf iddo gael dolur rhydd | Ni ddylai unigolion yr effeithir arnynt nofio am bythefnos ar ôl y tro diwethaf iddynt gael dolur rhydd. |
| Dolur rhydd a/neu chwydu | 48 awr ar ôl y tro diwethaf i'r unigolyn gael dolur rhydd neu chwydu | Os bydd dau achos neu fwy mewn lleoliad, rhowch wybod i'r Tîm Diogelu Iechyd/Swyddog Iechyd yr Amgylchedd |
| *E. coli* O157 STEC* Teiffoid [a pharateiffoid] (y dwymyn goludd)***** | Dylai'r unigolyn gadw draw o'r lleoliad am o leiaf 48 awr ar ôl y tro diwethaf iddo gael dolur rhydd. | Rhaid i unigolion sy'n 5 oed neu'n iau, y rhai sy'n cael anawsterau wrth geisio cynnal hylendid personol da, y rhai sy'n trin bwyd a staff gofal gadw draw o'r lleoliad nes bod prawf nad ydynt yn cario'r |

| | | |
|---|---|---|
| Shigela* (dysenteri) | Mae'n bosibl y bydd angen i rai unigolion gadw draw o'r lleoliad nes na fydd y bacteria yn eu hysgarthion mwyach. Dylech ymgynghori â'ch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd lleol/y Tîm Diogelu Iechyd bob amser | bacteria mwyach (cliriad microbiolegol). Bydd eich Swyddog Iechyd yr Amgylchedd lleol yn rhoi cyngor ym mhob achos.<br><br>Mae'n bosibl y bydd angen cliriad microbiolegol ar y rhai sy'n dod i gysylltiad agos ag achos o'r clefyd hefyd. Gall Swyddog Iechyd yr Amgylchedd/y Tîm Diogelu Iechyd roi cyngor os bydd angen |
| **Salwch anadlol** | | |
| COVID-19 (coronafeirws-19)* | Dilynwch ganllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar hunanynysu: [Hunanynysu \| LLYW.CYMRU] os byddwch yn dod yn symptomatig (tymheredd uchel ≥ 37.8ºC; peswch cyson newydd; neu golli synnwyr arogleuo neu synnwyr blasu, neu newid iddynt) NEU brofi'n bositif, os yw'r unigolyn yn asymptomatig.<br><br>Bydd y Tîm Profi, Olrhain, Diogelu yn rhoi cyngor ynghylch y cyfnod eithrio os bydd yn Amrywiolyn sy'n Peri Pryder | Achos a chyswllt(au) i ddilyn canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar hunanynysu: [Hunanynysu \| LLYW.CYMRU] fel y bo'n briodol.<br><br>Bydd Tîm Profi Olrhain Diogelu (TTP) yn rhoi cyngor ar y cyfnod gwahardd angenrheidiol.<br><br>*GWELER: Unigolion Agored i Niwed a Beichiogrwydd (isod) a chyngor Llywodraeth Cymru ynghylch [Unigolion sydd mewn mwy o berygl o'r coronafeirws]* |
| Y ffliw | Nes y bydd yr unigolyn wedi gwella | *GWELER: Unigolion Agored i Niwed (isod)* |
| Twbercwlosis* | Dylech ymgynghori â'r Tîm Diogelu Iechyd bob amser | Rhaid bod mewn cysylltiad agos am gyfnod estynedig er mwyn ei ledaenu |
| Y pâs (pertwsis)* | 48 awr ar ôl dechrau triniaeth â gwrthfiotigau, neu 21 diwrnod ar ôl i'r salwch ddechrau os na roddir triniaeth â gwrthfiotigau | Gellir ei osgoi drwy gael brechiad sy'n rhan o'r amserlen imiwneiddio reolaidd yn y DU. Ar ôl triniaeth, mae'n bosibl y bydd peswch nad yw'n heintus yn parhau am sawl wythnos. |
| **Heintiau eraill** | | |
| Llid pilen y llygad | Dim fel arfer. | Os bydd dau achos neu fwy mewn lleoliad, ceisiwch gyngor gan y Tîm Diogelu Iechyd |
| Difftheria* | Ni ddylid mynychu'r lleoliad. Dylid ymgynghori â'r Tîm Diogelu Iechyd bob amser | Gellir ei osgoi drwy gael brechiad sy'n rhan o'r amserlen imiwneiddio reolaidd yn y DU. Rhaid cadw cysylltiadau teuluol draw o'r lleoliad nes y bydd y Tîm Diogelu Iechyd yn cadarnhau ei bod yn iawn iddynt ddychwelyd Bydd y Tîm Diogelu Iechyd yn ystyried y risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw gysylltiad y mae'r unigolyn wedi'i gael ag eraill os bydd angen. |
| Heintiau ar y llygad ac yn y glust | Dim fel arfer. Gall y Tîm Diogelu Iechyd roi cyngor ynghylch a oes angen i unigolyn yr effeithir arno gadw draw o'r lleoliad. | Gan y gall feirysau a bacteria achosi heintiau ar y llygad ac yn y glust, ni fydd angen triniaeth â gwrthfiotigau ar bob un. |
| Twymyn y chwarennau | Dim | Yn heintus am hyd at 7 wythnos cyn i'r symptomau ddechrau. Gall twymyn y chwarennau arwain at chwydd yn y ddueg, felly dylid osgoi chwaraeon neu weithgareddau a allai gynyddu'r risg o gwympo neu niweidio'r ddueg. |
| Llau pen | Dim | Dim ond mewn achosion lle mae llau byw wedi'u gweld y caiff triniaeth ei hargymell |
| Hepatitis A* | Dylai'r unigolyn gadw draw o'r lleoliad am 7 diwrnod ar ôl i'r clefyd melyn ddechrau (neu 7 diwrnod ar ôl i'r symptomau ddechrau os na fydd clefyd melyn) | Os bydd dau achos neu fwy mewn lleoliad, bydd y Tîm Diogelu Iechyd yn rhoi cyngor ynghylch mesurau rheoli angenrheidiol |
| Hepatitis B*, C*, HIV | Dim | Feirysau a gludir yn y gwaed yw Hepatitis B ac C a HIV ac nid ydynt yn heintus drwy gysylltiad cymdeithasol arferol. |
| Meningococol Llid yr ymennydd/ Septisemia* | Nes y bydd yr unigolyn wedi cael y gwrthfiotig priodol. Dylid ymgynghori â'r Tîm Diogelu Iechyd bob amser | Gellir atal sawl math o glefyd meningococol drwy gael brechiad. Nid oes rheswm dros atal brodyr a chwiorydd neu gysylltiadau agos eraill yr unigolyn yr effeithir arno rhag mynychu lleoliadau. Os bydd dau achos neu fwy o fewn 4 wythnos, dylid cysylltu â'r Tîm Diogelu Iechyd. |
| Ffliw haemoffilws math B (Hib) Llid yr ymennydd/ Septisemia* | Nes y bydd yr unigolyn wedi cael y gwrthfiotig priodol. Dylid ymgynghori â'r Tîm Diogelu Iechyd bob amser | Gellir atal ffliw haemoffilws math B (Hib) drwy gael brechiad. Nid oes rheswm dros atal brodyr a chwiorydd neu gysylltiadau agos eraill yr unigolyn yr effeithir arno rhag mynychu lleoliadau. Os bydd dau achos neu fwy o fewn 4 wythnos, dylid cysylltu â'r Tîm Diogelu Iechyd. |
| Llid yr ymennydd oherwydd bacteria arall* | Dim | Nid oes angen i'r Tîm Diogelu Iechyd nodi pobl y mae'r unigolyn wedi bod mewn cysylltiad â nhw. Nid oes rheswm dros atal brodyr a chwiorydd neu gysylltiadau agos eraill yr unigolyn yr effeithir arno rhag mynychu lleoliadau. Gall y Tîm Diogelu Iechyd roi cyngor ar gamau gweithredu angenrheidiol |
| Llid feirysol yr ymennydd* | Dim | Salwch ysgafnach. Nid oes angen i'r Tîm Diogelu Iechyd nodi pobl y mae'r unigolyn wedi bod mewn cysylltiad â nhw. Nid oes rheswm dros atal brodyr a chwiorydd a chysylltiadau agos eraill yr unigolyn yr effeithir arno rhag mynychu lleoliadau. |
| Staffylococws Awrëws sy'n Gwrthsefyll Methisilin | Dim | Mae hylendid da, yn enwedig golchi dwylo a glanhau'r amgylchedd, yn bwysig er mwyn lleihau lledaeniad. |

| | | |
|---|---|---|
| Clwy'r pennau* | 5 diwrnod ar ôl i'r ên/gwddf ddechrau chwyddo | Gellir ei hosgoi drwy gael brechiad sy'n rhan o'r amserlen imiwneiddio reolaidd (MMR x 2 ddos). |
| Edeulyngyr | Dim | Argymhellir triniaeth ar gyfer y plentyn ac aelodau ei aelwyd |
| Tonsilitis | Dim | Mae llawer o achosion, ond mae'r rhan fwyaf yn deillio o feirysau felly nid oes angen gwrthfiotigau ar eu cyfer. |

*yn nodi organeb/clefyd hysbysadwy. Mae'n ofyniad statudol i feddygon roi gwybod am glefyd hysbysadwy i Swyddog Priodol yr Awdurdod Lleol (Meddyg Ymgynghorol Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy/Diogelu Iechyd fel arfer).

**Unigolion Agored i Niwed**
Mae rhai cyflyrau meddygol yn gwneud pobl yn agored i heintiau na fyddent fel arfer yn ddifrifol i'r rhan fwyaf o bobl. Mae'r rhain yn cynnwys pobl sy'n cael triniaeth ar gyfer lewcemia neu ganserau eraill, pobl sydd ar ddosau uchel o steroidau a phobl sydd â chyflyrau sy'n lleihau eu himiwnedd yn ddifrifol.

**Beichiogrwydd**
Os bydd menyw'n datblygu brech yn ystod ei beichiogrwydd neu'n dod i gysylltiad uniongyrchol â rhywun sydd â brech neu haint, dylai ofyn i'w Meddyg Teulu/Bydwraig a oes angen unrhyw ymchwiliadau perthnasol arni, e.e. prawf gwaed. Daw'r risg fwyaf o haint yn ystod beichiogrwydd gan blentyn/plant y fenyw ei hun, yn hytrach na'r gweithle.

**Imiwneiddio**
Anogir pob unigolyn i sicrhau ei fod wedi cael yr holl frechlynnau a gynigir fel rhan o amserlen y DU. Os bydd unrhyw un yn ansicr pa frechlynnau y mae wedi'u cael, dylai gysylltu â'i Feddygfa. I gael rhagor o wybodaeth am yr amserlen imiwneiddio, ewch i: Brechiadau GIG 111 Cymru

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome phone calls in Welsh

© 2022 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gall y deunydd yn y ddogfen hon gael ei atgynhyrchu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae hawlfraint yn y trefniant, y dyluniad a'r cynllun argraffyddol yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru